

Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 1^{af} o Fawrth, 2016, yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

Yn Bresennol

- Cefyn Williams
- Ifan Williams
- Nan Jones
- John Evans
- Emrys Bodden
- Gwen Wynne
- Aelwyn Guest
- Un aelod o'r cyhoedd (nid oedd angen i gyfieithu)
- Mrs Julia Hughes (Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych)
- Mr Iain MacVicar gyda'r ymdrechion â'r Safle Gwê Cynwyd

Ymddiheuriadau

- Ann Owen
- Llion Jones

Cyn ymdrin â materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno, a chydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru.

Digwyddiadau'r pentref

- Pethau'n dawel
- Pryder am y difrod i ffenestri'r hen giosc
- Fandaliaeth i'r Clwb Bowlio
- Codwyd pyst ar y glaswellt yn agos i ddechreuad y parth 20mya, er mwyn arbed ceir yn colli amynedd wrth aros am y ceir i arafu ar y ffordd i Gorwen

Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 2 Chwefror 2016, a chafwyd yn gywir, gyda dim materion yn codi o'r cofnodion. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

Materion Ariannol

- Cais am gefnogaeth o Dreialon Cŵn Defaid yn Llandrillo.
- Gweld beth mae cynghorau eraill yn rhoi ac ystyried y mater yng nghyfarfod Mis Ebrill.
- Costiau'r Clerc: £449.62

Cynllunio

Dim cynllunio ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ac UFA

- Cofnodion yn Gymraeg i'r Cyfnod pob mis
- Iaith y Cyngor yw Cymraeg yn arferol. Y clerch neu un unigolyn i gyfieithu i'r Saesneg os oes angen
- Cyflwr y ffyrdd yn enwdig Ffordd y Rhaeadr.
- Cwn yn y fynwent. Cadw golwg ar y mater.
- Camera i bysleisio 20mya yng Nghynwyd, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- Baw Cwn wedi gwella
- Van gwyn wedi parcio yn Stad Godre'r Coed
- Diolch i Mrs Enid Cole am ei gwaith gyda'r Safle Bws
- Mae'r blodau o gwmpas y pentref yn edrych yn dda. Diolch yn fawr. Cof Golofn – y clerch I edrych i mewn i'r sefyllfa
- Adroddiad byr gan y Clerch ar ei ymweliad a'r cyfarfod yn Llandudno (Digwyddiad Ymgysylltu Cynghorau Tref a Chymuned ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft) – yn fyr gwastraff amser.

Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 5^{ed} o Ebrill, 2016